

Astudiaeth Achos 1

Ar yr adeg y cofrestrodd “Mr H”, roedd newydd orffen contract gyda Nwy Prydain, a manteisiodd yn gyflym ar y cyfle i fod yn hunangyflogedig yn gweithio i Uber Taxi.

O ganlyniad i effaith COVID a'r cyfyngiadau symud, nid oedd llawer o alw wedi bod am y diwydiant tacsis ac, oherwydd hyn, roedd “Mr H” yn profi tlodi mewn gwaith ac wedi bod yn brwydro i ddiwallu anghenion beunyddiol ei deulu.

I ddechrau, roedd “Mr H” yn byw gyda'i deulu, ond, yn anffodus, cafodd ei brofi'n bositif am COVID-19 ac nid oedd yn teimlo'n ddiogel yn aros gyda'i deulu am fod gan chwaer ei wraig blant.

Penderfynodd “Mr H” symud allan o'r aelwyd, a gofynnodd a allwn ei helpu i chwilio am lety. Yn ystod ein trafodaeth, trefnais apwyntiad brys gydag Opsiynau Tai i gysylltu â “Mr H” i'w gynorthwyo i chwilio am lety addas.

Llwyddodd “Mr H” i ddod o hyd i dŷ trwy Opsiynau Tai, ac roedd arno angen help i dalu ymlaen llaw amdano.

Yn ystod sgwrs arall â “Mr H”, gwneuthum gais am Gredyd Cynhwysol gan geisio am daliad ymlaen llaw o £848, yr oedd “Mr H” wedi'i dderbyn a'i ddefnyddio tuag at gost y taliad ymlaen llaw i sicrhau'r llety.

Symudodd “Mr H” i mewn i'r llety a sicrhau cyflogaeth ran-amser yn siop ddiodydd un o aelodau ei deulu.

Gan fod “Mr H” wedi profi'n bositif am COVID, gwneuthum gais am grant COVID, a chynigiwyd £500 iddo. Mae'n fwy sefydlog erbyn hyn gan iddo ddatrys y mater tai yr oedd yn poeni fwyaf yn ei gylch, ac mae'n hapus ei fod yn cael Credyd Cynhwysol i ychwanegu at ei gyflog.

Dyweddodd “Mr H” fod angen iddo ddod o hyd i gyflogaeth gynaliadwy a allai wella ei ddyfodol.

Cawsom drafodaeth hir ynghylch cyfeiriad gyrfa “Mr H”, gan gynnwys cyflog, oriau gwaith, cyfrifoldebau ac amgylchiadau personol. Penderfynodd “Mr H” yr hoffai symud ymlaen i gael trwydded Goruchwyliwr Drysau yr SIA.

Mae “Mr H” wedi bod ar gwrs lechyd a Diogelwch Lefel 2 gyda Dysgu Oedolion, ac wedi'i gwblhau, ac ar hyn o bryd mae'n mynd trwy'r broses o gael ei gofrestru ar gyfer cwblhau trwydded Goruchwyliwr Drysau yr SIA.